Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2021/22

Ystyriodd y Bwrdd y Cynllun Taliadau ar gyfer 2021/22 mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Medi, 5 Tachwedd a 3 Rhagfyr 2020. Nododd y Bwrdd y gofynion gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol bod y systemau a phrosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi am y taliadau yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol fel y nodir uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru 2021/22 yn cydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau cynllun taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried rheolau'r Cynllun Taliadau gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o fathau o gwsmeriaid, wrth ddefnyddio dŵr yn gyson ac o ystyried y newidiadau i lefelau defnyddio dŵr sy'n debygol o fod wedi effeithio ar gwsmeriaid o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r Bwrdd wedi ymyrryd i sicrhau bod effeithiau biliau Cynllun Taliadau 2021/22 islaw 5%, ac eithrio ar gyfer nifer bach o gwsmeriaid fel y nodir yn y Datganiad o newidiadau sylweddol. Mae'r ymyriadau wedi'u nodi yn y Datganiad o newidiadau sylweddol ategol.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau, fel y nodir isod.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am roi cymeradwyaeth derfynol i Gynllun Taliadau 2021/22, yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn sgil cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH) ar 16 Rhagfyr 2020, i'r Cadeirydd.

**Alastair Lyons**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
17 Rhagfyr 2020

Dŵr Cymru Welsh Water

| Dyddiad | Diben | Canlyniad |
|---|---|---|
| | | |
| 8 Gorffennaf 20 | Hysbysu'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am gynnwys y cyhoeddiad "Cwmpas y newidiadau". | Ni chafodd unrhyw faterion eu codi. Cyhoeddwyd cwmpas y newidiadau ar y wefan ar 10 Gorffennaf 2020, yn cadarnhau na fydd unrhyw newidiadau i dariffau cyfanwerthu. |
| 17 Awst 20 | Hysbysu'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr am y Tariffau cyfanwerthu dangosol drafft ar gyfer 2020/21 a gwahodd sylwadau. | Dim sylwadau gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. |
| 25 Medi 20 | Cyfarfod cyswllt chwarterol – trafodaeth ar y tariffau cyfanwerthu dangosol. | Roedd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn deall yr anawsterau o ran rhagweld y galw ar gyfer 2021/22, ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r dull a fabwysiadwyd wrth gyhoeddi'r tariffau cyfanwerthu dangosol.<br>Cyhoeddwyd y tariffau cyfanwerthu dangosol ar y wefan ar 13 Hydref 2020. |
| 9 Tachwedd 20 | Trafodaethau am y cynnig codi tâl. | Cwblhawyd templed blynyddol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac fe'i trafodwyd. Roedd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn deall yr anawsterau o ran rhagweld nifer y cwsmeriaid a'r galw ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac ni chododd unrhyw bryderon mewn perthynas â dull arfaethedig y Cwmni. |
| 7 Rhagfyr 20 | Trafodaethau am y cynnig codi tâl – y wybodaeth ddiweddaraf. | Cyfarfod i drafod y taliadau drafft a'r effeithiau ar filiau yn dilyn y penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2020.<br>Roedd y trafodaethau yn cynnwys y strategaeth ymdrin (cynllun cyfathrebu) ar gyfer cwsmeriaid dŵr gwastraff yn unig a chadarnhad o groes-gymhorthdal o £22 a chyfraniad o £11.8m gan y Cwmni ar gyfer tariffau fforddiadwyedd yn unol â'r trafodaethau a gynhaliwyd â Chyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r tariff HelpU diwygiedig ym mis Awst 2020. |
| 16 Rhagfyr 20 | Cyflwyno'r taliadau drafft ar ôl cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Costau tai (CPIH). | Negeseuon e-bost i gadarnhau dealltwriaeth o effaith y CPIH a gyhoeddwyd. |